

Cyngor Cymuned Llansawel *Community Council*

Cyfarfod Misol / *Monthly Meeting*

Cyfarfod rhithwir trwy Zoom am

19:30 ar y 27ain o Fai 2021

Virtual meeting via Zoom at

19:30 on the 27th of May 2021

Yn bresennol / *Present:*

Cynghorwyr / *Councillors:* Kevin Davies (Cadeirydd / *Chair*), Pat Racher & Rhys Green

Clerc / *Clerk:* Angharad Lewis

1.	<u>Croeso / Welcome</u> Diolchodd y Clerc i bawb am gytuno i symud y cyfarfod yn ei flaen wythnos, allan o barch at ddau o'n Cynghorwyr sydd wedi colli gwraig / chwaer yn ddiweddar. Cydymdeimlad dwysaf â'r teulu am eu colled. <i>The Clerk thanked everyone for agreeing to move the meeting forward a week, out of respect for two of our Councillors who have recently lost a wife / sister. Deepest condolences to the family for their loss.</i>
2.	<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absence</u> Cyng. / <i>Cllrs</i> Lynne Jones, Meurig Griffiths, Sion Williams & Elsbeth Jenkins, Rhys George (Is-gadeirydd / <i>Vice chair</i>). Cyng. Sir / <i>County Cllr:</i> Eirwyn Williams
3.	<u>Datganiadau o ddiddordeb / Declarations of interest</u> Datganodd y Cyng. Rhys Green ddiddordeb yn y cais cynllunio ym mhwynt 8. <i>Cllr Rhys Green declared an interest in the Planning application in point 8.</i>
4.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 15fed o Ebrill 2021</u> <u>Minutes from the previous meeting held on the 15th of April 2021</u> Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyng. Rhys Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Pat Racher. <i>The minutes were accepted as a true record and proposed by Cllr Rhys Green and seconded by Cllr Pat Racher.</i>
5.	<u>Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes</u> i. Pont Tancoed, Heol Esgairdawe – Mae'r mater hwn mewn llaw. <i>Tancoed bridge, Esgairdawe Road – This issue is in hand.</i> ii. Gwefan – Dim byd i'w adrodd y tro hwn. <i>Website – Nothing to report this time.</i> iii. Hen adeilad yr hers – Adroddwyd ein bod bellach wedi derbyn 2 ddyfynbris ar gyfer drysau newydd i'r adeilad, a dderbyniwyd gan G. Davies, £285 +TAW ar gyfer drws dur, wedi'i fframio, y gellir ei gloi, a chan E. Davies, £560 am ddrws pren. Y Clerc i e-bostio Cynghorwyr i ofyn pa fath o ddrws fyddai orau, gan nad oes digon yn y cyfarfod hwn i wneud penderfyniad terfynol.

	<i>The old Hearse building</i> – It was reported that we have now received 2 quotes for new doors to the building, received by G. Davies, £285 + VAT for a steel, framed, lockable door, and by E. Davies, £560 for a wooden door. The Clerk to email Councillors to ask what type of door would be best, as there is not enough at this meeting to make a final decision. iv. Llifogydd – Soniodd y Cyng. Kevin Davies fod y Cyngor Sir wedi bod allan yn ddiweddar i lanhau'r draeniau. Dim byd pellach i'w adrodd. Nodwyd mai datrysiaid dros dro yw hwn, ac mae'r Cyngor yn edrych ar ddatrysiaid tymor hir. <i>Floods</i> – Cllr Kevin Davies mentioned that the County Council have recently been out to clean the drains. Nothing further to report. It was noted that this is a temporary solution, and the Council are looking at a long-term solution. v. Prosiect Llwybr Troed – Roedd y Cyng. Pat Racher yn hoffi syniad y Cyng. Rhys Green o greu taith gylchol. Cynigodd y Cyng. Pat Racher gerdded y llwybr, cyn y cyfarfod nesaf, i weld a oes unrhyw rwystrau. Nodwyd bod y Proffil Bywyd Gwyllt yn eich Ward yn dangos llwybr troed cyhoeddus yn glir drwy Ystâd Edwinsford. Y Clerc i fynd ar drywydd ei hymholiad i'r Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus i weld a allwn symud ymlaen gyda'r prosiect. <i>Public Footpath Project</i> – Cllr Pat Racher liked Cllr Rhys Green's idea of creating a circular walk. Cllr Pat Racher offered to walk the path, before the next meeting, to see if there are any obstacles. It was noted that the Wildlife in your Ward Profile clearly shows a public footpath through the Edwinsford Estate. The Clerk to chase up her query to the Public Rights of Way Officer to see if we can move along with the project. vi. Sesiynau Hyfforddi – Gofynnodd y Clerc a fyddai unrhyw un yn hoffi mynychu un o sesiynau hyfforddi Un Llais Cymru ym mis Mehefin. Mynegodd y Cyng. Pat Racher ddiddordeb mewn mynychu y sesiwn Cod Ymddygiad - Modiwl 9 ar y 30ain o Fehefin. Atgoffodd y Clerc y Cyngorwyr y dylent fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad bob 3 blynedd. <i>Training sessions</i> – The Clerk asked if anyone would like to attend one of the One Voice Wales training sessions in June. Cllr Pat Racher expressed an interest in attending the Code of Conduct – Module 9 session on the 30th of June. The Clerk reminded Councillors that they should attend the Code of Conduct training every 3 years.
6.	<u>Dyfodol Adeilad Ysgol Llansawel / The Future of Llansawel School Building</u> Dim gwybodaeth i'w hadrodd. <i>No information to report.</i>
7.	<u>Gohebiaeth / Correspondence</u> i. Apêl Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin 2020/21 - Llythyr o ddiolch am ein rhodd ddiweddar. <i>Carmarthenshire County Council Chair's Appeal 2020/21</i> – Letter of thanks for our recent donation. ii. Manylion am y taliad gan Gyngor Sir Gâr - £1,833.34 (Praesept) <i>Remittance advice from Carmarthenshire County Council</i> - £1,833.34 (Precept)

	iii. Calonnau Cymru – Adroddodd y Clerc y gall Calonnau Cymru gynnig grant i ariannu cabinet newydd am gost o £395 ar gyfer cabinet Polycarb gyda gwarant 10 mlynedd. Mae dyfynbrisiau ar-lein ar gyfer y cypyrddau hyn oddeutu £550. Y Clerc i ofyn i Calonnau Cymru pwy fyddai eu hangen arnom i ffitio'r cabinet ac anfon neges at bob Cynghorydd i ofyn a ydyn nhw'n cytuno i brynu'r cabinet. Y Clerc i brynu'r cabinet os yw'r mwyafrif yn cytuno. <i>Welsh Hearts – The Clerk reported that Welsh Hearts can offer a grant to fund a new cabinet at a cost of £395 for a Polycarb cabinet with a 10-year guarantee. Online quotes for these cabinets are around £550. The Clerk to ask Welsh Hearts who we would need to fit the cabinet and send a message to all Councillors to ask if they agree to the purchase of the cabinet. The Clerk to purchase the cabinet if the majority agree.</i> iv. Adnewyddu Yswiriant BHIB – Polisi yswiriant flynyddol ac anfoneb am £183.86. <i>BHIB Insurance Renewal - Annual insurance policy and invoice for £183.86.</i> v. Proffil Bywyd Gwyllt yn eich Ward - Proffil byr ar gyfer Ward Cynwyl Gaeo i nodi Wythnos Natur Cymru (29 Mai - 6 Mehefin 2021) ac i dynnu sylw at yr amgylchedd naturiol yn yr ardal leol. Mae proffil wedi'i wneud ar gyfer pob ward yn Sir Gaerfyrddin gan Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin a dderbyniodd cyllid y llynedd gan Lywodraeth Cymru drwy'r brosiect Partneriaeth Natur Leol Cymru. Cafodd y proffiliau eu creu mewn partneriaeth â Chanolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru a ddarparodd ddata a mapiau i helpu i strwythuro'r proffiliau. <i>Wildlife in your Ward Profile – Short profile for the Cynwyl Gaeo Ward to mark Wales Nature Week (29th May – 6th June 2021) and to highlight the natural environment in the local area. A profile has been made for each ward in Carmarthenshire by The Carmarthenshire Nature Partnership who received funding last year from the Welsh Government via the Local Nature Partnership Cymru project.</i> <i>The profiles were produced in partnership with the West Wales Biodiversity Information Centre (WWBIC) who provided data and maps around which the profiles are structured.</i>
8.	<u>Ceisiadau cynllunio / Planning applications</u> PL/01846 – Proposed road on South side of B4337 – Dim gwrthwynebiad / <i>No objection.</i>
9.	<u>Materion ariannol / Financial matters</u> Balans yn y cyfrif banc - £3,530.25 ar 15/04/2021. <i>Bank Account balance - £3,530.25 as of 15/04/2021.</i> i. <u>Rhoddion a thaliadau / Donations & Payments</u> • 000789 – One Voice Wales – Training course fees - £60.00 • 000790 - Angharad Lewis – Clerks Wages for April & May 2021 - £401.60 (No Tax or NI to pay). • 000791 – Welsh Hearts – Defibrillator Cabinet - £402.00 • 000792 – BHIB – Annual Council Insurance - £183.86 ii. <u>Llofnodwyr</u> – Cytunodd y Cyng. Rhys Green i fod yn llofnodwr. Y Clerc i gasglu ffurflenni gan y banc. Yn y cyfamser bydd y Cynghorydd Kevin Davies yn mynd â'r sieciau at y Cynghorydd Meurig Griffiths i lofnodi.

	<i>Signatories – Cllr Rhys Green agreed to become a signatory. The Clerk to collect forms from the bank. In the meantime Cllr Kevin Davies will take the cheques to Cllr Meurig Griffiths to sign.</i>
10.	<u>Coronafeirws / Coronavirus (Covid-19)</u> Dim / None.
11.	<u>Cyfarfod Blynnyddol / Annual General Meeting</u> Cytunwyd i gynnal y cyfarfod blynnyddol mis nesaf. Y Clerc i wneud ymholiadau am gynnal y cyfarfod yn Neuadd y Pentref. <i>It was agreed to hold the AGM next month. The Clerk to make enquiries about holding the meeting in the Village Hall.</i>
12.	<u>Unrhyw fusnes arall / Any other business</u> i. Copi wrth gefn o ffeiliau – Soniodd y Clerc ei bod bellach yn safio ffeiliau electronig y cyngor ar yriant caled allanol yn ogystal â'r Cof bach USB. <i>Back up Files – The Clerk mentioned that she is now backs up the council's electronic files on an external hard drive as well as the USB Memory Stick.</i>
13.	<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf / Date and time of next meeting</u> Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol – <u>24ain o Fehefin 2021 am 19:00</u> . Cynhelir cyfarfod misol ar ôl y Cyfarfod Blynnyddol. Lleoliad i'w gadarnhau. <i>Annual General Meeting – <u>24th of June 2021 at 19:00</u>. Monthly meeting to take place after the AGM. Location to be confirmed.</i>
Heb unrhyw fusnes arall i'w drafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 20:44. <i>With no other business to discuss, the Chair closed the meeting at 20:44.</i>	

Arwyddwyd / Signed **Dyddiad / Date**